

## 2021 (LLC21-03)

# DEDDF Y CORONAFEIRWS 2020

## Hysbysiad Addasu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2021

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 38(1) o Ddeddf y Coronafeirws 2020(1), a pharagraff 7 o Atodlen 17 iddi, yn dyroddi'r hysbysiad a ganlyn.

### Cyfnod penodedig

1. Yn yr hysbysiad hwn, ystyr “cyfnod penodedig” yw'r cyfnod o 24 o ddiwrnodau sy'n dechrau â 8 Ionawr 2021 ac yn gorffen ar 31 Ionawr 2021.

### Addasu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion

2.— Mae'r paragraff hwn yn gymwys am y cyfnod penodedig.

(1) Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion(2) a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 38 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (“y Cod”) wedi ei addasu fel a ganlyn.

(2) Mae paragraff 3.4 (dogfen ymgynghori) yn cael effaith fel pe bai'r cyfeiriadau at “diwrnod ysgol” yn cynnwys diwrnod pan fyddai sesiwn ysgol wedi ei chynnal pe na bai unrhyw gyfyngiad ar bresenoldeb disgyblion yn yr ysgol mewn cysylltiad â mynychder y coronafeirws.

(3) Mae'r dyletswyddau a osodir ar berson gan baragraff 3.5 (ymgynghori â phlant a phobl ifanc) i'w trin fel pe baent wedi eu cyflawni os yw'r person wedi gwneud ymdrechion rhesymol i gyflawni'r ddyletswydd.

(4) Mae paragraff 4.1 (sut y cyhoeddir cynigion) yn cael effaith fel pe bai'r cyfeiriadau at “diwrnod ysgol” yn cynnwys diwrnod pan fyddai sesiwn ysgol wedi ei

---

1) 2020 p. 7.

2) Dogfen Cod Statudol Rhif 011/18.

chynnal pe na bai unrhyw gyfyngiad ar bresenoldeb disgyblion yn yr ysgol mewn cysylltiad â mynychder y coronafeirws.

### **Y rhesymau dros ddyroddi'r hysbysiad**

3.— Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod dyroddi'r hysbysiad hwn yn gam gweithredu priodol a chymesur o dan yr holl amgylchiadau sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws am y rhesymau a ganlyn.

(1) Er 5 Ionawr 2021, dim ond i blant hyglwyf a phlant gweithwyr hanfodol y mae mangre ysgolion wedi parhau i fod ar agor er mwyn lleihau lledaeniad y coronafeirws.

(2) Bydd nifer y dysgwyr mewn ysgolion yn gyfyngedig ac mae'n bosibl mewn rhai ysgolion na fydd sesiynau i unrhyw ddisgyblion ar rai diwrnodau.

(3) Mae'r Cod yn gosod gofyniad ar bersonau sy'n gwneud cynigion trefniadaeth ar gyfer ysgolion a gynhelir i gyhoeddi dogfennau ymgynghori ar ddiwrnod ysgol a gofynion o ran hyd y cyfnodau ymgynghori drwy gyfeirio at ddiwrnodau ysgol. Diffinnir diwrnod ysgol yn adran 579 o Ddeddf Addysg 1996 fel unrhyw ddiwrnod pan fydd sesiwn ysgol yn yr ysgol honno. Gall sesiwn ysgol fod yn sesiwn bore neu'n sesiwn prynhawn, felly mae diwrnod ysgol yn golygu unrhyw ddiwrnod pan fydd yr ysgol yn cyfarfod am y diwrnod cyfan neu am ran o'r diwrnod.

(4) Oni bai bod y diffiniad o "diwrnod ysgol" yn narpariaethau perthnasol y Cod yn cael ei addasu, gall y trefniadau presennol ar gyfer gweithredu ysgolion gael yr effaith o amharu ar gynnydd rhai cynigion trefniadaeth ysgolion.

(5) Mae'r Cod hefyd yn gosod gofynion ynghylch ymgynghori â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys isafswm gofyniad i ymgynghori â chynghorau ysgol. Gall fod yn anodd cynnal cynghorau ysgol felly dylai'r dyletswyddau mewn cysylltiad ag ymgynghori â phlant a phobl ifanc gael eu trin fel pe baent wedi eu cyflawni os gwneir ymdrechion rhesymol i gyflawni'r dyletswyddau.

(6) Bydd yn dal yn ofynnol i awdurdodau lleol a chynigwyr eraill hysbysu ymgynghoreion statudol gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion a rhieni am gychwyn yr ymgynghoriad, y cyfnodau gwrthwynebu a materion perthnasol eraill a gwneud trefniadau i ymgynghori â phlant a phobl ifanc hyd eithaf eu gallu.

*Kirsty Williams*

*Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru*

*7 Ionawr 2021*